OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 2437 (Cy.210)

IECHYD MEDDWL, CYMRU

Rheoliadau Iechyd Meddwl (Eiriolwyr Annibynnol Iechyd Meddwl) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - -	*15 Medi 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*17 Medi 2008*
Yn dod i rym - -	*3 Tachwedd 2008*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 130A o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(**1**) a chan adrannau 12 a 204 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**2**).

Enwi, cychwyn a rhychwant

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Meddwl (Eiriolwyr Annibynnol Iechyd Meddwl) (Cymru) 2008 a deuant i rym ar 3 Tachwedd 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cleifion cymwys" ("*qualifying patients*") yw'r personau hynny sy'n gymwys i gael cymorth gan EAIM o dan adrannau 130C(2), (3) a (4) o'r Ddeddf;

ystyr "darparydd gwasanaethau eirioli" ("*provider of advocacy services*") yw corff neu berson, gan gynnwys corff gwirfoddol, sy'n cyflogi personau y gellir peri eu bod ar gael i weithredu fel EAIM;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd Meddwl 1983; ac

ystyr "EAIM" ("*IMCA*") yw eiriolwr annibynnol iechyd meddwl.

(**1**) 1983 (p.20). Mewnosodwyd adran 130A gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007 (c. 12).
(**2**) 2006 p.42.

Trefniadau ar gyfer eiriolwyr annibynnol iechyd meddwl

3.—(1) Yn ddarostyngedig i gyfarwyddiadau y caiff Gweinidogion Cymru eu rhoi, bydd Bwrdd Iechyd Lleol yn gwneud trefniadau y mae'n ystyried eu bod yn rhesymol er mwyn galluogi EAIMau i fod ar gael i weithredu mewn cysylltiad â chlaf cymwys sydd—

(a) yn agored i gael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty neu mewn sefydliad cofrestredig sydd yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol;

(b) yn ddarostyngedig i warcheidiaeth o dan y Ddeddf neu sy'n glaf cymunedol ac sydd fel arfer yn preswylio yn yr ardal y sefydlwyd y Bwrdd Iechyd Lleol ar ei chyfer;

(c) yn gymwys o dan adran 130C(3) o'r Ddeddf ac sydd fel arfer yn preswylio yn yr ardal y sefydlwyd y Bwrdd Iechyd Lleol ar ei chyfer.

(2) Wrth wneud trefniadau o dan baragraff (1) caiff Bwrdd Iechyd Lleol wneud trefniadau gyda darparydd gwasanaethau eirioli.

(3) Ni chaiff unrhyw berson weithredu fel EAIM onid yw'r person hwnnw wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd Lleol neu onid yw wedi cael ei gyflogi gan ddarparydd gwasanaethau eirioli i weithredu fel EAIM.

(4) Cyn cymeradwyo unrhyw berson o dan baragraff (3) rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol gael ei fodloni bod y person yn bodloni'r gofynion penodi yn rheoliad 4.

(5) Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol sicrhau ei bod yn ofynnol i unrhyw ddarparydd gwasanaethau eirioli y mae'r Bwrdd yn gwneud trefniant ag ef o dan baragraff (2), yn unol â thelerau'r trefniant hwnnw, sicrhau bod unrhyw berson—

(a) a gyflogir gan y darparydd gwasanaethau eirioli hwnnw, a

(b) y perir ei fod ar gael i weithredu fel EAIM,

yn bodloni'r gofynion penodi yn rheoliad 4.

(6) At ddibenion rheoliad 2(2) o Reoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) 2003(**3**) nid yw Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol am wneud trefniadau'n unol â pharagraff (1) mewn perthynas â chlaf cymwys os yw'r claf cymwys hwnnw—

(a) fel arfer yn preswylio yn yr ardal y sefydlwyd y Bwrdd Iechyd Lleol ar ei chyfer; a

(b) yn agored i gael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty neu mewn sefydliad cofrestredig nad yw yn yr un ardal y mae ef fel arfer yn preswylio ynddi

Gofynion penodi ar gyfer eiriolwyr annibynnol iechyd meddwl

4.—(1) Y gofynion penodi yn rheoliad 3(4) a (5) yw–

(a) bod gan y person brofiad neu hyfforddiant priodol neu gyfuniad priodol o brofiad a hyfforddiant;

(b) bod y person yn meddu ar uniondeb a chymeriad da; ac

(c) y bydd y person yn gweithredu'n annibynnol ar unrhyw berson

(i) sy'n gofyn i'r person hwnnw ymweld neu gyf-weld â'r claf cymwys;

(ii) sy'n ymwneud yn broffesiynol â thriniaeth feddygol y claf cymwys.

(2) Wrth benderfynu a yw person yn bodloni'r gofyniad penodi ym mharagraff (1)(a) rhoddir ystyriaeth i safonau mewn canllawiau y caiff Gweinidogion Cymru eu dyroddi o bryd i'w gilydd.

(3) At ddibenion paragraff (2) caiff safonau gynnwys unrhyw gymhwyster y caiff Gweinidogion Cymru benderfynu eu bod yn briodol.

(**3**) O.S. 2003/150 (Cy.20).